



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 18 Gorffennaf 2019 am 10.30 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd M Norris Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd R Lewis Y Cyngorydd C Leyshon

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms A Batley, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant
Mr A Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion y Priffyrdd a Pheirianeg
Ms L Howells, Ysgolion yr 21ain Ganrif
Ms A Richards, Pennaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd S Belzak
Y Cyngorydd J Cullwick
Y Cyngorydd G Davies
Y Cyngorydd M Diamond
Y Cyngorydd H Fychan
Y Cyngorydd E Griffiths
Y Cyngorydd L Hooper
Y Cyngorydd M Powell
Y Cyngorydd M Weaver

13 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud, sy'n ymwneud ag eitem 3 ar yr agenda:

- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber ddatganiadau

- o fuddiant personol ynglŷn â'r mater –
 - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Heol y Celyn ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."
 - "Mae fy wyrion yn mynd i ysgol sydd wedi'i nodi yn y cynigion"
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings ddatganiad o fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu ynglŷn â'r mater a gadawodd y cyfarfod pan oedd yr Aelodau'n trafod yr eitem ac yn cynnal pleidlais "Rydw i'n cael fy nghyflogi gan Goleg y Cymoedd"
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Cefais fy mhenodi i Gorff Llywodraethu Coleg Morgannwg (Coleg y Cymoedd erbyn hyn) am gyfnod o 4 blynedd yn ail Gyfarfod Blynyddol Cyffredinol ar hugain y Cyngor (17 Mai 2017). Serch hynny, nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor".
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater – "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."
- Mr C. Bradshaw - "Cefais fy mhenodi i Gorff Llywodraethu Coleg Morgannwg (Coleg y Cymoedd erbyn hyn) am gyfnod o 4 blynedd yn ail Gyfarfod Blynyddol Cyffredinol ar hugain y Cyngor (17 Mai 2017)."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol H. Fychan ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Evan James ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Belzak ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu YGG Pont Siôn Norton ac Ysgol Gynradd Cilfynydd ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."
- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater - "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Coedpenmaen ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."
- Datganodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol L. Hooper y buddiant personol canlynol mewn perthynas â'r mater - "Bydd aelod o'm teulu yn cael ei effeithio gan y cynigion."

14 COFNODION

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2019 yn rhai cywir.

15 RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF – CYNIGION I WELLA'R DDARPARIAETH ADDYSG YN ARDAL EHANGACH PONTYPRIDD

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant drosolwg manwl i'r Aelodau o ganlyniad i gyhoeddi pedwar Hysbysiad Statudol yn ddiweddar mewn perthynas â chynigion i ad-drefnu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a darpariaeth chweched dosbarth yn ardal ehangach Pontypridd. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa bod y pedwar Hysbysiad Statudol yn ymwneud â:

- Newid ystod oedran y disgyblion y mae modd eu derbyn i Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain, o 11–19 oed i 11–16 oed, gan arwain at ddileu'r ddarpariaeth chweched dosbarth erbyn mis Medi 2022;
- Cau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd a chreu ysgol pob oed 3–16 newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd erbyn mis Medi 2022. Fydd dim darpariaeth chweched dosbarth yn yr ysgol yma;
- Cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen a chreu ysgol pob oed 3–16 newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen erbyn mis Medi 2022, gyda dosbarth arbenigol ADY dynodedig yr Awdurdod Lleol wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, yn ogystal â disgyblion sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Saesneg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd. Fydd dim darpariaeth chweched dosbarth yn yr ysgol yma;
- Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn ac agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn erbyn mis Medi 2022.

Nododd y Cyfarwyddwr fod y rhesymau dros y cynigion am newid a ymgynghorwyd arnyn nhw wedi'u disgrifio'n fanwl yn y ddogfen ymgynghori, a oedd wedi'i chylchredeg yn eang yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Er budd y Cabinet, gwneud y Cyfarwyddwr sylwadau pellach am y rhesymau dros y cynigion yn eu tro, gan dynnu sylw at ffactorau yn ymwneud â'r newidiadau i'r 6^{ed} Dosbarth; sefydlu ysgolion 3–16 oed ac addysg Gymraeg.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y pedwar hysbysiad statudol wedi'u cyhoeddi ar 30 Ebrill 2019, gyda'r cyfnod ar gyfer derbyn gwrthwynebiadau yn dod i ben ar 31 Mai 2019, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Derbyniwyd cyfanswm o 435 o wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod hwn ac roedd pob un ohonynt wedi cael eu hadolygu gan Aelodau'r Cabinet cyn y cyfarfod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Cabinet fod yr Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymuned a'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd wedi cael eu hadolygu at ddibenion yr adroddiad a hefyd wedi tynnu sylw at sut roedd y cynigion a ystyriwyd yn yr adroddiad yn cyfrannu at bob un o'r 7 nod llesiant yn

Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Deddf 2015 gan roi sylw dyladwy i'r Pum Ffordd o Weithio, fel sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad, a gwnaeth sylwadau ar gefndir yr adroddiad a'r rhesymau cryf dros y cynigion, buddion y newid a'r dystiolaeth i gefnogi'r cynigion. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet ar y cyfraddau cadw isel, maint dosbarthiadau, lleoedd dros ben, diffygion ariannol uchel, lleoliadau'r ysgolion a chynnal a chadw adeiladau, gan ganolbwyntio ar yr angen am newid. Pwysleisiodd yr Aelod o'r Cabinet eto mai sicrhau bod y Cyngor yn darparu'r cyfleoedd dysgu gorau i bobl ifainc y Fwrdeistref Sirol oedd y prif ffocws i bawb, a nododd fod yr angen am newid yn anochel. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd at y ffaith bod y trefniadau sydd wedi'u nodi yn y cynigion yn galluogi'r ddarpariaeth addysg i fod yn fwy hyfyw ac i gael effaith gadarnhaol fwy ar ddeilliannau disgyblion gydag adeiladau pwrpasol newydd a gwaith adnewyddu. Ychwanegodd y byddai'r cynigion yn rhoi ystod ehangach o ddewisiadau a chyfleoedd i ddysgwyr ôl-16 oed trwy wneud trefniadau'r chweched dosbarth yn fwy effeithiol a hyfyw. Cadarnhaodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd fod y 435 o ymatebion a dderbyniwyd wedi bod ar gael i holl Aelodau'r Cabinet eu hadolygu cyn y cyfarfod.

Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, croesawodd yr Arweinydd Gynghorwyr canlynol y Fwrdeistref Sirol ac Aelodau'r Cyhoedd i annerch y Cabinet, ac ymatebodd yr Aelodau a'r swyddogion iddynt:

- Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: H. Fychan; M. Powell, S. Belzak ac L. Hooper
- Aelodau'r cyhoedd: Y Parchedig Williams, Miss B. Lises a Ms H. Gulliford.

Gofynnodd yr Arweinydd am eglurhad ynghylch y monitro sy'n cael ei wneud yn Ysgol Uwchradd Pontypridd mewn perthynas ag ansawdd aer a dywedodd y Cyfarwyddwr – lechyd a Diogelwch y Cyhoedd fod y canlyniadau cychwynnol yn dilyn yr adolygiad 6 mis yn dangos bod y canlyniadau yn sylweddol is na'r terfynau wedi'u gosod o fewn Amcan Ansawdd Aer Llywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd yr Arweinydd hefyd gyda'r Swyddogion y byddai asesiad trylwyr o'r effaith ar draffig yn cael ei gynnal ar gyfer yr holl gynigion, gan fod diogelwch yn bwysig iawn. Byddai'r asesiad yn cynnwys sylw i'r llwybrau cerdded a byddai'r holl argymhellion yn cael eu rhoi ar waith.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Swyddogion am y cadarnhad mewn perthynas â'r asesiad o'r effaith ar draffig a siaradodd am sut yr oedd y Cyngor wedi mynd y tu hwnt i ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion gyda chyfleoedd i ymgysylltu. Ailadroddodd y Dirprwy Arweinydd y byddai unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud yn seiliedig ar ddarparu'r cyfleoedd addysg gorau y gallai'r Cyngor eu darparu ar gyfer y genhedlaeth iau.

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion y Gymraeg am y cynigion o safbwynt addysg Gymraeg, gan ddweud bod y cynigion yn darparu rhagor o gapasiti cyfrwng Gymraeg yn ardal Pontypridd ac y byddai'n buddsoddi'n sylweddol mewn cyfleusterau addysg, gan gyfeirio at fuddsoddiad blaenorol mewn darpariaeth cyfrwng Gymraeg ar draws y Sir dros y blynyddoedd diwethaf. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am strategaeth ehangach y Cyngor fel yr

amlinellwyd yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) a dywedodd y byddai'r Cyngor yn parhau i wella mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant i bawb am eu cyfraniadau i'r cyfarfod ac am y rheini a oedd wedi cyflwyno ymatebion i'r hysbysiadau statudol. Ailadroddodd yr Aelod y byddai unrhyw benderfyniad sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â'r cynigion yn seiliedig ar y deilliannau dysgu gorau ar gyfer pobl ifainc y Fwrdeistref Sirol, gan sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at amgylcheddau dysgu sy'n addas i'r 21^{ain} Ganrif. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at ddyfyniad gan John Dewey a'r angen i fuddsoddi yn y dyfodol er budd dysgwyr. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg, gan ychwanegu y byddai'r cynigion, pe baen nhw'n cael eu datblygu, yn annog twf addysg cyfrwng Cymraeg. Daeth yr Aelod o'r Cabinet â'i chrynodeb i ben drwy gyfeirio at yr asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymuned a'r Gymraeg gan nodi nad oedd unrhyw faterion wedi'u nodi.

Ar ôl trafodaeth fanwl, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Gwrthwynebiad yn Atodiad A yr adroddiad, sy'n cynnwys crynodeb o'r 435 o wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol, a'r sylwadau a ddarparwyd mewn ymateb i'r gwrthwynebiadau. Mae Atodiadau B–D yn cynnwys yr Aseidiadau Effaith mewn perthynas â'r Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg.
2. Gweithredu'r cynigion fel y maen nhw wedi'u cyhoeddi yn yr Hysbysiadau Statudol, sef:
 - Cau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd a chreu ysgol pob oed 3–16 oed ar safle presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd erbyn mis Medi 2022. Fydd dim darpariaeth chweched dosbarth yn yr ysgol yma;
 - Cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen a chreu ysgol pob oed 3–16 newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen erbyn mis Medi 2022, gyda dosbarth arbenigol ADY dynodedig yr Awdurdod Lleol wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, yn ogystal â disgyblion sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Saesneg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd. Fydd dim darpariaeth chweched dosbarth yn yr ysgol yma;
 - Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn ac agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn erbyn mis Medi 2022.
3. Newid y dalgylchoedd cysylltiedig sydd wedi'u yn y nodiadau esboniadol i'r Hysbysiadau Statudol – daw'r rhain i rym o 1 Medi 2022 Nid yw hyn yn cynnwys y newid arfaethedig i ddalgylch Ysgol Gyfun Bryncelynnog fel y cytunwyd gan y Cabinet ar 21 Mawrth 2019 na chafodd ei gynnwys yn yr

Hysbysiadau Statudol.

4. Nodi, fel yr adroddwyd yn flaenorol, bod y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol bennu eu cynigion statudol eu hunain, ac eithrio'r cynnig sy'n ymwneud ag Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain. Mae cynnig Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain yn ymwneud â dileu'r chweched dosbarth yn unig – bydd gweithredu'r newid yma, neu beidio â'i weithredu, ddim yn effeithio ar weithredu'r cynigion eraill yn llwyddiannus. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mae'r achos yma wedi'i gyfeirio at Weinidogion Cymru i'w benderfynu.
5. Nodi y byddai adroddiad ar wahân ar drefniadau ariannu yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor maes o law a fyddai hefyd yn amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.
6. Yn dilyn y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynnig i adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, byddai adroddiad ar wahân ynglŷn â sefydlu dosbarth cymorth dysgu ADY newydd yn yr ysgol Gymraeg newydd yn cael ei gyflwyno maes o law.

Nodwch:

- Fel y cyfeiriwyd ato yng Nghofnod 13, cafodd nifer o Ddatganiadau o Fuddiant eu gwneud mewn perthynas â'r eitem yma ar yr agenda, gan gynnwys buddiant sy'n rhagfarnu gan y Cyngorydd A. Crimmings. Gadawodd hi'r cyfarfod pan oedd yr eitem yma'n cael ei thrafod ac yn destun pleidlais.
- Ar ôl i'r eitem yma ddod i ben, gadawodd yr Aelodau canlynol y cyfarfod:
- Galwodd yr Arweinydd am seibiant byr ar ôl ystyried yr eitem yma.

16 TRAWSNEWID SYSTEM Y BLYNYDDOEDD CYNNAR YN RHONDDA CYNON TAF

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned yr Aelodau at ei adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â Chynllun Cyd-adeiladu'r Blynnyddoedd Cynnar Cwm Taf. Roedd yn gofyn am gymeradwyaeth i roi'r newidiadau arfaethedig i'r model cyfredol ar waith er mwyn trawsnewid system y blynnyddoedd cynnar yn Rhondda Cynon Taf.

Cafodd yr Aelodau wybod ei bod yn angenrheidiol i'r Cyngor symud oddi wrth gyflenwi gwasanaethau sy'n seiliedig ar godau post daearyddol tuag at fodel sy'n hyrwyddo mynediad cyffredinol i'r holl wasanaethau i bob teulu, er mwyn rhoi system y blynnyddoedd cynnar ar waith yn RhCT sydd wir yn ymateb i anghenion plant a theuluoedd. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr, er mwyn gwneud hyn mae rhaid defnyddio hyblygrwydd y Grant Plant a Chymunedau a'r Grant Cymorth Tai yn llawn er mwyn cyflawni'r weledigaeth a darparu'r cymorth mwyaf addas i'r bobl iawn ar yr adeg iawn.

Byddai cyflwyno pedwar llinyn i'r rhaglen (Rhianta / Iaith Gynnar a Chyfathrebu / Ymwelwyr Iechyd / Gofal Plant) gyda dull sy'n seiliedig ar anghenion yn cael ei

hwyluso gan fynediad cyffredinol i 'un drws ffrynt' drwy'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion i drawsnewid y Blynyddoedd Cynnar ym mis Mehefin 2019.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc y dull sy'n seiliedig ar anghenion, gan sôn am yr anghydraddoldeb presennol oherwydd y 'loteri cod post' a siaradodd am bwysigrwydd mynediad at wasanaethau drwy system 'un drws ffrynt' drwy'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth.

Siaradodd Aelodau eraill o'r Cabinet yn gadarnhaol am y cynigion, gan roi sylwadau ar yr anawsterau blaenorol a gafwyd wrth gael mynediad i'r system Dechrau'n Deg.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gymeradwyo'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma a'r cynigion i drawsnewid System y Blynyddoedd Cynnar Rhondda Cynon Taf ac ardal Cwm Taf.
2. Cymeradwyo'r cynllun i fabwysiadu dull fesul cam o ddarparu gofal plant wedi'i ariannu yn seiliedig ar angen wedi'i asesu nad yw'n gyfyngedig i ardaloedd cod post Dechrau'n Deg, fel sy wedi'i nodi yn adrannau 6.8 i 6.11 yr adroddiad.
3. Cymeradwyo, o fis Medi 2019, y gostyngiad yn nifer yr wythnosau o ofal plant a ariennir y flwyddyn o 42 wythnos i 39 wythnos i gyd-fynd â Chanllawiau Dechrau'n Deg a'r arfer cyfredol yng ngweddill Cymru.
4. Cyflwyno cynnig ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn gofyn am gefnogaeth y Gweinidog i dreialu newidiadau pellach i system y Blynyddoedd Cynnar mewn perthynas â chyflwyno dull sy'n seiliedig ar anghenion a newidiadau i ymwelwyr ieuchyd; gweithredu canlyniadau Rhaglen Braenaru'r Tir Cyd-adeiladu'r Blynyddoedd Cynnar.

17 Y CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG – Y NEWYDDION DIWEDDARAF

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol ddiweddariad i Aelodau am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2019/20 tan 2022/23, yn seiliedig ar y tybiaethau modelu presennol cyn pennu'r cynigion manwl ar gyfer strategaeth cyllideb 2020/21 yn ystod misoedd yr hydref.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod y Sector Cyhoeddus yn parhau i wynebu cyfnod hir o doriadau gwirioneddol o ran cyllid a disgwylir cyfnod heriol i wasanaethau ar draws lywodraeth leol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod llawer o wasanaethau'n wynebu pwysau cynyddol a chostau cysylltiedig ar ben hyn, yn enwedig ym maes Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr mai'r awgrym diweddaraf gan Lywodraeth Ganolog y DU oedd bod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, sy'n gosod terfynau

gwario/cyllido'r sector cyhoeddus, ddim yn debygol o ddigwydd yn ôl yr amserlen wreiddiol yn ystod misoedd yr hydref 2019. Byddai goblygiadau'r oedi ar setliad llywodraeth leol 2020/21 yng Nghymru yn allweddol wrth gynllunio rhagdybiaethau'r Cyngor.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 7 yr adroddiad, ac esboniodd y Cyfarwyddwr ei bod yn debygol y byddwn yn wynebu bwlch sylweddol yn y gyllideb yn ystod 2020/21 ac am y 2 flynedd ddilynol, yn amodol ar lefel y cyllid gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegodd y gallai'r strategaeth ragweithiol sydd wedi'i mabwysiadu yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyflawni arbedion effeithlon sylweddol o hyd, trwy adnabod arbedion yn gynnar a thargedu meysydd allweddol fel caffael, a chanfod ffyrdd newydd o weithio. Daeth a'i sylwadau i ben trwy roi gwybod unwaith y byddai'r Cyngor yn derbyn y Setliad Dros Dro, o ystyried y gweithredoedd sydd eisoes ar y gweill, byddwn ni'n mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y gyllideb trwy gymryd camau er effeithlonrwydd a phrosesu newidiadau yn y lle cyntaf. Drwy hynny, bydd modd diogelu'r gwasanaethau rheng flaen gwerthfawr gymaint â phosibl.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol sylwadau ar waith caled parhaus y Cyfarwyddwr a'r adran gyllid i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau posibl, a siaradodd am y pwysau sy'n wynebu'r Cyngor mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r dyfarniadau cyflog a phensiwn, gan nodi bod angen i Lywodraeth Cymru ddiogelu'r cyllid. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at y buddsoddiad sylweddol sy'n cael ei wneud gan y Cyngor mewn cyfnod o gyni cyllidol, a oedd hefyd yn glod i reolaeth ariannol y Cabinet a chydweithwyr yn yr adran gyllid.

Siaradodd yr Arweinydd am yr ansicrwydd ynglŷn â'r arolwg cynhwysfawr o wariant a goblygiadau cyllideb treigl. Cyfeiriodd hefyd at y grant penodol a oedd ar gael o'r blaen o ran pensiynau a dyfarniadau cyflog athrawon a'r ansicrwydd ynghylch a fyddai hyn ar gael yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â 'Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2019/20 i 2022/23' a chael diweddariad pellach yn yr hydref yn rhan o'r broses gosod cyllideb flynyddol; a
2. chyfathrebu ac ymgysylltu ehangach â'r Cyngor llawn a'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad.

18 ADRODDIAD CYFLAWNIAD Y CYNGOR AM Y PEDWERYDD CHWARTER

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol ei Adroddiad gerbron yr Aelodau, sy'n rhoi trosolwg o gyflawniad y Cyngor o ran materion ariannol a gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

Cafodd Aelodau'r Cabinet wybod fod yr adroddiad yn adrodd cyflawniad ariannol a gweithredol cadarn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben a oedd yn gyson â'r diweddariadau chwarterol yn ystod y flwyddyn.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol sylwadau ar yr adroddiad a chyfeiriodd at adroddiadau'r Dangosyddion

Cyflawniad, gan roi sylwadau targedau uchel a osodwyd gan y Cyngor, a dywedodd fod y Cyngor yn bodloni targedau Llywodraeth Cymru. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod gosod targedau yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad.

Soniodd yr Arweinydd hefyd am yr adroddiad cadarnhaol a chyfeiriodd at y pwysau gyda gofal cymdeithasol a soniodd am yr angen i lobïo Llywodraeth Cymru ar y mater.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

Refeniw

1. Nodi a chytuno ar sefyllfa refeniw'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 (Adran 2 o Grynodedb Gweithredol yr adroddiad) sy'n cynnwys arian ychwanegol untro gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy.

Cyfalaf

2. Nodi sefyllfa alldro cyfalaf y Cyngor fel y mae ar 31 Mawrth 2019 (Adrannau 3a-f o'r Crynodeb Gweithredol).
3. Nodi manylion Dangosyddion Materion Darbodusrwydd Cylch Rheoli'r Trysorlys fel y mae ar 31 Mawrth 2019 (Adran 3g o'r Crynodeb Gweithredol).

Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol

4. Nodi sefyllfa ddiwedd y flwyddyn ariannol ynghylch y cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol cytûn (Adrannau 5a–d o'r Crynodeb Gweithredol), Mesurau Cenedlaethol Eraill (Adran 5e o'r Crynodeb Gweithredol) a chymharu targedau 2018/19 â'r flwyddyn flaenorol a gwybodaeth am gyfartaledd cyflawniad Cymru gyfan (Adran 5f o'r Crynodeb Gweithredol).

(Nodwch: Ar ddiwedd yr eitem yma, gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J. Cullwick y cyfarfod)

19 ADRODDIAD CYFLAWNIAD CORFFORAETHOL DRAFFT

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol ei Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol drafft y Cyngor gerbron Aelodau'r Cabinet. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion cynnydd ar gyfer 2018/19 a chynlluniau ar gyfer 2019/20 o ran tair blaenoriaeth strategol y Cyngor. Cafodd yr Aelodau wybod bod yr adroddiad hefyd yn nodi sut mae'r Adroddiad yma'n galluogi'r Cyngor i fodloni ei ofynion adrodd statudol.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 yr Adroddiad a oedd yn manylu ar yr Adroddiad drafft, a oedd wedi'i strwythuro o amgylch Blaenoriaethau'r Cyngor, sef yr Economi, y Bobl a'r Lle. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr Adroddiad yn darparu trosolwg o gynnydd a chynlluniau i Aelodau Etholedig, partneriaid, trigolion, staff a rheoleiddwyr, ynghyd â chynnwys gwybodaeth

fanwl bellach.

Cafodd yr Aelodau wybod bod yr Adroddiad drafft hefyd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cyllid a Chyflawniad ar 8 Gorffennaf i'w archwilio'n fanwl ymlaen llaw.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau cadarnhaol am yr adroddiad a diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion am yr Adroddiad, gan ddweud ei fod yn adlewyrchu'r Cyngor mewn ffordd gywir a gonest, gan roi sylw i gyflawniad cadarnhaol a meysydd lle y mae angen eu gwella.

PENDERFYNWYD:

1. Cymeradwyo Adroddiad Cyflawniad drafft y Cyngor (Atodiad 1 yr Adroddiad) ac argymhell bod y Cyngor llawn yn ei gymeradwyo ar 31 Gorffennaf 2019.

20 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant drafft 'Adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol' gerbron yr Aelodau cyn i'r cynnwys gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gyfadran drosolwg byr o'r adroddiad i'r Aelodau. Mae'r adroddiad yn nodi cyflawniad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor y llynedd, gan amlygu'r cyfeiriad a'r blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cafodd yr Aelodau wybod fod yr adroddiad hefyd wedi'i gyflwyno i Bwyllgorau Craffu Iechyd a Lles a Phlant a Phobl Ifainc i'w ystyried yn eu cyfarfodydd diweddar, heb unrhyw newidiadau sylweddol i'r adroddiad ganddyn nhw.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg i Gyfarwyddwr y Gyfadran am ei adroddiad, gan ychwanegu, er gwaethaf yr heriau a galwadau sylweddol ar y gwasanaeth, mae'n darparu gwasanaethau rhagorol er budd ei drigolion. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am y trawsnewid parhaus a'r gwaith a gyflawnwyd.

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc am yr adroddiad cadarn a gwaith teuluoedd cydnerth a'r un pwynt cyswllt, gan roi sylwadau ar y cyfeiriad cywir yr oedd y gwasanaeth yn ei ddarparu.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi adroddiad blynyddol (drafft) Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Rhondda Cynon Taf (Atodiad 1 yr Adroddiad).

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma yn y cyfarfod gadawodd yr Arweinydd y cyfarfod a daeth Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Webber i'r Gadair).

21 CYNLLUN BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU CWM TAF

Yn unol â gofynion statudol cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau

Cymuned a Gwasanaethau i Blant Gynllun Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg, sy'n nodi blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r Gymraeg am sut mae diogelwch plant a phobl sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth, a gwnaeth sylwadau ar waith da'r Bwrdd, gan ychwanegu bod y cynllun yn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu'r Bwrdd yn agored ac yn onest.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc eto'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud a phwysleisiodd bwysigrwydd adrodd am unrhyw risgiau mewn perthynas â diogelu.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi a chymeradwyo cynnwys Cynllun Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg ar gyfer 2019/20.

22

ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNHALWYR CWM TAF

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Adroddiad Blynyddol 2018/19 mewn perthynas â Chynhalwyr gerbron yr Aelodau iddyn nhw ei gymeradwyo, cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Rhododd Cyfarwyddwr y Garfan drosolwg byr o'r adroddiad, gan ychwanegu bod gweithredu'r Strategaeth Cynhalwyr wedi ategu blaenoriaethau'r Cyngor i hyrwyddo annibyniaeth a bywyd cadarnhaol i bawb, gan gynnwys Cynhalwyr o bob oed.

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r Gymraeg am waith da cynhalwyr ar draws Cymru a'r ddarpariaeth werthfawr maen nhw'n ei chynnal, gan wneud sylwadau ar sut roedd cynhalwyr yn caniatáu annibyniaeth barhaus.

Siaradodd Aelod y Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc yn gadarnhaol am yr adroddiad a'r gwelliannau a nodir ynddo mewn perthynas â chefnogi a chydabod Cynhalwyr, a'r wybodaeth sydd ar gael. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am yr ymwybyddiaeth uwch gyda chynhalwyr ifainc a'r digwyddiadau gwobrwyo a chyflawniad a gynhaliwyd.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad;
2. Nodi bod yr Adroddiad Blynyddol hefyd yn cael ei gyflwyno gerbron Cabinet Cyngor Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i'w gymeradwyo.
3. Nodi roedd yr Adroddiad Blynyddol i fod i gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mai 2019. Serch hynny, ac yn unol â'r arfer flaenorol sydd wedi bod yn dderbyniol o safbwynt Llywodraeth Cymru, ac oherwydd nad yw amserlenni cyfarfodydd Cabinet y Cyngorau (RhCT a Merthyr Tudful) na'r Bwrdd Iechyd yn cyd-ddigwydd, fod adroddiad drafft yn cael ei gyflwyno, a chaiff fersiwn terfynol ei anfon i Lywodraeth Cymru

yn dilyn sêl bendith y tri phartner.

4. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol (Atodiad 1) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
5. Nodi bod y gwaith mewn perthynas â chynhalwyr yn mynd yn ei flaen yn rhan o'r Cynllun Rhanbarthol ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn arbennig trwy weithredu Strategaeth Cynhalwyr/Gofalwyr Cwm Taf 2016-19 a gafodd ei chymeradwyo gan bartneriaid ym mis Gorffennaf 2016.

(Nodwch: Ar ôl i'r eitem hon ddod i ben, daeth yr Arweinydd i'r Gadair).

23 GWAITH DEULI'R A4119 HEOL CWM ELÁI – PARC BUSNES LLANTRISANT HYD AT GYLCHFANAU COED-ELÁI

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Priffyrdd a Thrafnidiaeth ei adroddiad i'r aelodau a oedd yn rhoi diweddariad ar y cynnydd presennol mewn perthynas â datblygu a chyflwyno'r prif brosiect trafndiaeth: Gwaith Deuli A4119 Heol Cwm Elái – Parc Busnes Llantrisant hyd at Gylchfan Coed-elái.

Cafodd yr Aelodau wybod am yr astudiaethau ecolegol sydd wedi'u cynnal, a'r asesiad trafndiaeth, gan gynnwys y dewis o gael gwared â'r gylchfan ger Pencadlys y Gwasanaeth Tân neu beidio (byddai'r ddau ddewis yma yn cynnwys creu ffordd ddeuol). Cafodd yr Aelodau wybod bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Gwasanaethau Tân De Cymru sy'n cefnogi cael gwared â'r fynedfa bresennol mewn egwyddor, a chael mynedfa newydd oddi ar gylchfan Parc Busnes Llantrisant. Roedd diweddariadau eraill yn ymwneud â'r llwybrau cyswllt i gerddwyr a seiclwyr, a chafodd yr Aelodau wybod bod trafodaethau wedi cychwyn â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfraniadau posibl ar gyfer yr opsiwn o ddatblygu'r llwybrau hyn.

Siaradodd yr Aelodau'n gadarnhaol am y diweddariad a'r cynlluniau a nodwyd ynddo, a phwysigrwydd cyfathrebu â thrigolion ynglŷn â dechrau'r gwaith.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r cynnydd hyd yma a chymeradwyo'r camau nesaf, sef:
 - i. Cael gwared â mynediad cylchfan Gwasanaeth Tân De Cymru.
 - ii. Gwneud Pont Heol Coed-elái yn fwy llydan er mwyn galluogi cyfuno safonol.
 - iii. Darparu tanlwybr i'r de o gylchfan Coed-elái ar gyfer cerddwyr.
2. Rhoi awdurdod i Gyfarwyddwr y Gyfadran – Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng-flaen gyflwyno cais cynllunio ar ran y Cyngor ar gyfer mynedfa newydd i Wasanaeth Tân De Cymru ger yr A4119.
3. Rhoi awdurdod i Gyfarwyddwr y Gyfadran – Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng-flaen gaffael y tir angenrheidiol er mwyn cyflawni'r gwaith ychwanegol ar y cynllun sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad yma.

24 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG (SACRE) RHCT.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ei hadroddiad gerbron yr Aelodau. Rhoddodd fanylion i'r Aelodau am y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a rhoddodd drosolwg o waith CYSAG am y flwyddyn flynyddol, yn ôl yr angen statudol.

Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet ar Faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sylw ar yr adroddiad blynyddol a atodwyd fel atodiad B i'r adroddiad a **PHENDERFYNWYD**:

1. Nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol 2017-2018

25 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD: "Bod y cyfarfod yma yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

26 CYNLLUN RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL – Y DIWEDDARAF

Rhoddodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor y diweddaraf i Aelodau ynglŷn â'i adroddiad, a oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig mewn perthynas â chynnydd gweithredu'r cynllun gwaith sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018/23 ar gyfer Asedau Eiddo. Cafodd aelodau wybod bod y cynllun yn pennu fframwaith strategol eang ar gyfer rheoli portffolio o eiddo'r Cyngor, sydd wedi bod yn sylfaen gadarn ar gyfer defnyddio eiddo'n effeithiol a datblygu cynnwys y portffolio mewn ymateb i bwysau newidiol.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad eithriedig.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 pm

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**